

08/06/20

Llythyr at rieni Ysgol Glan Clwyd

"Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi".

Brynhawn ddydd Mercher, 03/06/2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, fanylion y cam nesaf i ysgolion yng Nghymru, gan roi cyfle i'ch plentyn "Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi". Yn y datganiad hwn, cadarnhaodd y Gweinidog y bwriad i ysgolion gynllunio i ddechrau'r cyfnod nesaf ar y 29ain o Fehefin, gyda thymor yr Haf yn cael ei ymestyn o wythnos, a gorffen ar y 24ain o Orffennaf yn Sir Ddinbych. Ar ben hynny, bydd wythnosau olaf tymor yr Haf yn cael eu defnyddio i ofalu bod disgyblion, staff a rhieni yn cael eu paratoi - yn feddyliol, yn emosiynol ac yn ymarferol - am y normal newydd ym mis Medi. Bydd gwyliau hanner tymor yr Hydref yn cael ei ymestyn i bythefnos.

Mae cyswllt i'r datganiad isod, ac rydym hefyd wedi atodi crynodeb o'r datganiad ar dudalen dau, fel cymorth.

Ein blaenoriaeth ni wrth gwrs yn Ysgol Glan Clwyd yw diogelwch a lles eich plentyn chi, ac rydym yn aros am ganllawiau manwl a fydd yn gymorth i ni gynllunio a pharatoi ar gyfer y cam nesaf hwn. Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd y canllawiau pellach hyn yn cael eu cyhoeddi yr wythnos hon. Canllawiau a fydd yn cynnwys gwybodaeth ar reoli cyfleusterau a threfniadau ymarferol, gan gynnwys adeiladau, adnoddau, glanhau a chludiant. Er hynny, rydym eisoes wedi dechrau cynllunio ac ystyried, gan roi blaenoriaeth i lesiant dysgwyr, staff a theuluoedd.

Yn naturiol, bydd gennych lawer o gwestiynau ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, y consortiwm rhanbarthol a'r llywodraethwyr fel y gallwn roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i allu paratoi am y cam nesaf hwn.

Er mwyn cefnogi'r cam nesaf, rydym yn rhannu holiadur â chi, a drefnwyd gan yr Awdurdod Lleol, i gasglu gwybodaeth a fydd yn ein helpu ni i gynllunio maes o law. Dyma'r ddolen i'r holiadur:

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/NR7WYXM>

Gofynnwn i bob rhiant lenwi'r holiadur hwn ar fyrder os gwelwch yn dda – erbyn diwedd y dydd yfory – 09/06/20. Byddwn ni fel ysgol wedyn yn cael y wybodaeth yn ôl gan yr Awdurdod er mwyn cynllunio'n fanwl.

Bydd yr wythnosau nesaf hyn yn rhai prysur iawn wrth i ni geisio cwblhau ein hasesiadau risg, a pharatoi safle'r ysgol. Ond, cofiwch mai ein blaenoriaeth ni yw rhoi gwybodaeth i chi a'ch plant.

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto, cyn gynted ag y cawn mwy o fanylion. Yn y cyfamser, mae'r hybiau yn dal ar agor i ddisgyblion bregus a phlant gweithwyr allweddol.

Hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ar yr adeg anodd hwn.

Yn gywir



Gwyn Tudur

Pennaeth

Crynodeb o gyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar 03/06/20, a chyswllt ato.

Dod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi".

<https://llyw.cymru/dod-ir-ysgol-dal-ati-i-ddysgu-paratoi-ar-gyfer-yr-haf-mis-medi>

Beth

- Bydd bob ysgol yn dechrau'r cam nesaf ar 29 Mehefin, gyda'r tymor yn cael ei ymestyn am wythnos hyd at 24 Gorffennaf.
- Bydd hanner tymor yr Hydref yn cael ei ymestyn i bythefnos.
- Bydd darparwyr gofal plant hefyd yn cynyddu nifer y plant sy'n bresennol o 9 Mehefin.

Sut

- Ym mhob ysgol, bydd dull o weithredu fesul cam yn cael ei roi ar waith.
- Bydd y blynyddoedd ysgol yn cael eu rhannu yn grwpiau ac yn cael gwersi ac egwylliau fesul grŵp.
- Mae disgwyl y bydd hyn yn golygu, yn fras, y bydd dim mwy na traean o ddisgyblion yn bresennol ar unrhyw un amser, ond efallai y bydd ysgolion angen amser i gyrraedd y lefel weithredu hon.
- Bydd y dosbarthiadau'n llawer llai, gan ddarparu amser penodol gydag athrawon a chyd-ddisgyblion.
- Bydd yr amser hwn yn cynnwys profiad dosbarth ar-lein a phersonol, gan baratoi plant a staff ar gyfer profiad tebyg ym mis Medi.

Pam

- Rydym yn creu'r cyfle i blant Ddod i'r Ysgol, Dal Ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf cyn dechrau mis Medi.
- Ers y penderfyniad i gau ysgolion ar gyfer darpariaeth statudol, mae ein dealltwriaeth o'r feirws a'i effeithiau hirdymor wedi parhau i ddatblygu.
- Gwyddom y bydd rhaid i ni fyw â hyn am beth amser.
- Gwyddom mai dyma fydd yr her fwyaf i ni hyd y gellir rhagweld.
- Gwyddom y bydd profiad yn y dosbarth yn wahanol am amser hir eto.

Beth nesaf

- Wythnos nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi gofal plant, ysgolion, yn ogystal â sefydliadau addysg bellach ac uwch.
- Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar reoli eu cyfleusterau a threfniadau cynllunio, gan gynnwys adeiladau, adnoddau, glanhau a chludiant.